22.12.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Eidales yn gwireddu breuddwyd o ganu gyda'r Candelas

Mae gan bawb eu harwr cerddorol, ac yn ei gyfres **Canu Gyda fy Arwr**, mae Rhys Meirion yn rhoi'r cyfle i unigolion lwcus i berfformio gyda rai o enwau mawr y byd cerddorol.

Yr arwyr fydd yn canu gyda'u ffans yr wythnos hon, 9 Ionawr, ydi'r band poblogaidd Candelas. Ers ffurfio yn 2009 maen nhw wedi rhyddhau tair albwm ac un EP. Ac mae Osian, Ifan, Tom, Gruff a Lewis wedi rocio o flaen sawl cynulleidfa - o ganolfannau bach i lwyfannau mawr, ac maen nhw'n un o brif *headliners* Cymru.

Yn rhannu'r llwyfan gyda'r Candelas fydd yr ymgeisydd ieuengaf eleni; pencampwyr Eisteddfod T; a rocar o'r Eidal! Bydd lot o sypreisys, llond lle o gyffro a digon o unawdau gitâr!

Un o ddisgyblion Ysgol y Preseli sydd wedi'i henwebu'i hun yw Manon, sy'n 14 oed, a bydd hi'n canu gyda'i hoff fand yng nghaffi Crwst, Aberteifi o flaen ffrindiau a theulu.

Anthem Cymru yn Ewros 2016 oedd fersiwn Candelas o glasur Yr Anrhefn, *Rhedeg i Paris*, ac yn Eisteddfod T 2021 daeth criw Ysgol Pendalar, Caernarfon yn fuddugol am feimio i'r gân. Mae'r disgyblion i gyd yn ffans mawr o'r band ac yn awyddus iawn i gael canu a pherfformio'r gân honno gyda nhw.

Mae'n amlwg fod caneuon bachog Candelas wedi teithio'n bell, gydag enwebiad wedi dod yr holl ffordd o'r Eidal, gan Debora Morgante - Eidales sy'n rhygl yn y Gymraeg.

Mae ei hangerdd at y Gymraeg a'i ddiwylliant yn mynd yn ôl rai blynyddoedd:

"Nes i ddod i Gymru am y tro cyntaf pan o'n i'n 17 oed i ddysgu Saesneg" meddai Debora, sy'n byw ger Rhufain.

"Nes i syrthio mewn cariad â'r wlad a'r diwylliant yn syth. Ond dim ond bum neu chwe blynedd yn ôl nes i ddysgu'r iaith, achos mae mwy o bosibiliadau nawr gyda gwefannau ac yn y blaen i rywun sy'n byw dramor. Ro'n i'n hoffi sŵn yr iaith gymaint, o'n i ishio bod yn rhugl ynddi."

Er fod Debora'n gweithio mewn banc gydol y dydd, mae hi'n hen gyfarwydd â pherfformio, gan ei bod yn canu gitâr drydan mewn band, ac mae dilyn grŵp y Candelas wedi chwarae rhan neilltuol yn ei siwrne o ddysgu'r Gymraeg:

"Dwi'n meddwl bod hi'n bwysig iawn pan ti'n dysgu iaith bod ti'n dysgu caneuon, achos mae'n help mawr i ddysgu ynganu ac ati. Darganfyddais i'r Candelas, a mwynhau achos bod y sŵn mor gryf, a llais Osian, a'r ffordd mae'n canu'r geiriau.

Bydd Debora'n gwireddu'i breuddwyd o gyd-ganu *Llwytha'r Gwn* gydag Osian a'r criw yn Nant Gwrtheyrn, Pen Llŷn.

**Canu Gyda fy Arwr**
**Nos Sul 9 Ionawr 8.00, S4C**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**

22.12.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Italian rocker's Candelas dream comes true!

Everybody has their musical heroes, and in his series **Canu Gyda fy Arwr** (Singing with my Hero), Rhys Meirion offers the opportunity for lucky individuals to sing with some of the big names in the world of music.

The heroes who will be singing with fans this week, 9 January, are the popular band Candelas. Since forming in 2009 they have released three albums and one EP. And Osian, Ifan, Tom, Gruff and Lewis have rocked before several audiences – from small community centres to big stages, and they are one of Wales's headline acts.

Sharing the stage with the Candelas will be this year's youngest participant, champions of the Eisteddfod T and a rocker from Italy! There will be a lot of surprises, and lots of guitar solos!

One of those who has nominated herself is 14 year-old Manon, a pupil of Ysgol y Preseli and she will be singing in Crwst cafê, Aberteifi in front of friends and family.

The anthem for the Wales football team in the Euros 2016 was the Candelas's version of the Yr Anhrefn classic *Rhedeg i Paris*, and in the Eisteddfod T 2021, a crew from Ysgol Pendalar, Caernarfon won for miming to the song. The pupils are all big fans of the band and are very keen to perform this song with them.

It's obvious that the Candelas' catchy songs have travelled far, with a request coming all the way from Italy by Debora Morgante – an Italian who speaks fluent Welsh.

Her passion for the Welsh language and culture goes back several years: "I came to Wales for the first time when I was 17 to learn English," said Debora who lives near Rome.

"I immediately fell in love with the country and its culture. But it was only five or six years ago that I learned the language, because it is more possible now with websites and so on for someone who lives abroad. I liked the sound of the language so much, I wanted to speak it fluently."

Although Debora works in a bank by day, she is used to performing because she plays an electric guitar in a band. Following the Candelas played a major part in her journey to learn Welsh:

"I think it's very important that if you learn a language, you learn the songs too because it helps a lot with pronunciation. I discovered the Candelas and enjoyed them because they have such a strong sound, and Osian's voice and the way he sings the words."

Debora will be realising her dream of singing *Llwytha'r Gwn* with Osian and the gang at Nant Gwrtheyrn, Llŷn Peninsula.

**Canu Gyda fy Arwr**
**Sunday 9 January, 8.00, S4C**
**English and Welsh subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Cwmni Da production for S4C**